**Dr Cynan Llwyd**

**Swyddog Polisi / Ysgrifennydd Cyffredinol**

Buffy Williams MS
Chair of the Children, Young People and Education Committee
Welsh Parliament,
Cardiff Bay,
Cardiff, CF99 1SN

Tuesday 25 March 2025

Dear Ms Williams

**Committee review of the issues facing Higher Education.**

I write to you in your capacity as Chair of the Senedd's Children, Young People and Education Committee about Higher Education and the provision of Humanities courses at undergraduate level. On behalf of our member churches and organisations we are taking a close interest in the current situation and the Committee review of the issues facing Higher Education.

Cytun, Churches Together in Wales has recently expressed its concern in respect of major changes to the teaching of the Humanities at the University of Wales Trinity Saint David, and the start of a consultation about the ending teaching of Humanities subjects at Cardiff University. We are aware of the challenges in these curriculum areas across all HEIs in Wales.

The members of Cytun recognise the significant challenges currently facing universities and indeed the wider post 16 education sector. However, of specific concern is that a good understanding of religion is extremely important in terms of fostering mutual trust from the local level to the global level. Academic studies in all areas of theology and religious studies, as well as the humanities more broadly, are essential to create this.

According to data released by the Higher Education Statistics Authority[1] the number of full-time undergraduate students at Universities in Wales enrolled on courses defined as Historical, philosophical and religious studies, has fallen as follows:

| | |
|---|---|
| 2019/20 | 2,115 |
| 2020/21 | 1,945 |
| 2021/22 | 1,785 |
| 2022/23 | 1,660 |

Whilst Cytun recognises that many of the challenges for HE recruitment are beyond the scope of the Senedd, the Welsh Government or MEDR, we would ask the committee to consider how this trend reflects the broader decrease in enrolments across all subject areas. We would also like the committee to consider how Wales will continue to offer teaching through the medium of Welsh, and the future of the libraries and extensive resources that have been collected in the universities and held under their charitable purposes for the benefit of the public.

In addition, based on information released by the Welsh Government in August 2024, there is a discernible downwards trends in enrolment from students domiciled in Wales[2]. Worryingly according to a statement released by the

[1] HESA 2024 What do HE students study? https://www.hesa.ac.uk/data-and-analysis/students/what-study#characteristics accessed 24th March 2025

[2] Welsh Government 2024 Students in higher education: August to July 2023 accessed 24th March 2025

Tŷ Hastings House, Llys Fitzalan Court (gyferbyn â/opposite Tŷ Brunel House), Caerdydd/Cardiff CF24 0BL
cynan@cytun.cymru | www.cytun.co.uk
Mae Cytûn yn gwmni cofrestredig yng Nghymru a Lloegr | Rhif: 5853982 | Enw cofrestredig: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" | Mae Cytûn yn elusen gofrestredig | Rhif: 1117071
Cytûn is a registered company in England and Wales | Number: 5853982 | Registered name: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" | Cytûn is a registered charity | Number: 1117071

**Dr Cynan Llwyd**

**Swyddog Polisi / Ysgrifennydd Cyffredinol**

Universities' representative body, Wales has the lowest proportion of 18-year-olds applying for university in the UK.[3] In the traditional application period Just 32% of Welsh 18-year-olds had applied to university this year compared to 33.2% previously. This is particularly concerning when compared to the UK, where the figure stands at 40.6%. A continued decline in the number of applications to university should be the paramount concern of all involved in education in Wales, and in the provision of public services and the viability of the economy as well as to those of us who represent the faith communities.

Clearly there is a link between the sustainability of teaching and research in specific subject areas and the overall recruitment of students at undergraduate level. In this regard we would like to ask the committee to consider how teaching of the Humanities subjects, under the Area of Learning and Experience and 6th form provision is contributing to the viability of programmes within Higher Education providers. To this end, we would like to request that the committee secures data, both qualitative and quantitative on the teaching of this specific curriculum area in Wales.

Cytun recognise the importance of a wider review of subject demand, provision and distribution in higher education across Wales and that the challenges faced are not unique to one area of the curriculum. However, we would like to seek reassurances from institutions and the Minister for Further and Higher Education via your committee that the specific challenges facing the humanities are understood in context and that the appropriate steps are taken both by government and the regulator of tertiary education as well as individual institutions.

We hope you can include these queries in the context of your review, and we would also like to assure you of our ongoing interest in policy relating to education and children and young people.

Yours sincerely



Dr Cynan Llwyd
General Secretary, Cytun
Cytun, Churches Together in Wales

Cc Clerk and members of the committee

[3] Universities Wales Welsh Applications to university continue to fall https://uniswales.ac.uk/welsh-applications-university-continue-fall accessed 24th March 2025

Tŷ Hastings House, Llys Fitzalan Court (gyferbyn â/opposite Tŷ Brunel House), Caerdydd/Cardiff CF24 0BL
cynan@cytun.cymru | www.cytun.co.uk
Mae Cytûn yn gwmni cofrestredig yng Nghymru a Lloegr | Rhif: 5853982 | Enw cofrestredig: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" | Mae Cytûn yn elusen gofrestredig | Rhif: 1117071
Cytûn is a registered company in England and Wales | Number: 5853982 | Registered name: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" | Cytûn is a registered charity | Number: 1117071

**Dr Cynan Llwyd**

**Swyddog Polisi / Ysgrifennydd Cyffredinol**

Buffy Williams AS
Cadeirydd Pwyllgor Plant, Pobl ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
Caerdydd, CF99 1SN

Dydd Mawrth, 25 Mawrth 2025

**Adolygiad o'r materion sy'n wynebu Addysg Uwch.**

Ysgrifennaf atoch yn eich swyddogaeth fel Cadeirydd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd ynghylch Addysg Uwch a'r ddarpariaeth o gyrsiau Dyniaethau ar lefel israddedig. Ar ran ein heglwysi a'n aelodau, rydym yn cymryd diddordeb manwl yn y sefyllfa bresennol ac yn yr adolygiad o'r materion sy'n wynebu Addysg Uwch.

Mae Cytûn, Eglwysi Ynghyd yng Nghymru, wedi mynegi ei bryder yn ddiweddar mewn perthynas â newidiadau mawr i addysgu'r Dyniaethau ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, a dechrau ymgynghoriad ynghylch dod â'r ddarpariaeth o bynciau Dyniaethol i ben ym Mhrifysgol Caerdydd. Rydym yn ymwybodol o'r heriau yn y meysydd cwricwlaidd hyn ar draws pob sefydliad addysg uwch yng Nghymru.

Mae aelodau Cytûn yn cydnabod yr heriau sylweddol sy'n wynebu prifysgolion ar hyn o bryd ac, yn wir, y sector addysg ôl-16 yn ehangach. Fodd bynnag, mae pryder penodol fod dealltwriaeth dda o grefydd yn hollbwysig o ran meithrin ymddiriedaeth gydfuddiannol o'r lefel leol i'r lefel fyd-eang. Mae astudiaethau academaidd ym mhob maes diwinyddiaeth ac astudiaethau crefyddol, yn ogystal â'r dyniaethau yn ehangach, yn hanfodol i greu hyn.

Yn ôl data a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod Ystadegau Addysg Uwch, mae nifer y myfyrwyr israddedig llawn amser ym mhrifysgolion Cymru sydd wedi cofrestru ar gyrsiau a ddiffinnir fel Astudiaethau Hanesyddol, Athronyddol a Chrefyddol wedi gostwng fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| 2019/20 | 2,115 |
| 2020/21 | 1,945 |
| 2021/22 | 1,785 |
| 2022/23 | 1,660 |

Er bod Cytûn yn cydnabod bod llawer o'r heriau o ran recriwtio mewn addysg uwch y tu hwnt i gwmpas y Senedd, Llywodraeth Cymru neu MEDR, hoffem ofyn i'r pwyllgor ystyried sut mae'r duedd hon yn adlewyrchu'r gostyngiad ehangach mewn cofrestriadau ar draws pob maes pwnc. Hoffem hefyd i'r pwyllgor ystyried sut y bydd Cymru yn parhau i gynnig addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal â dyfodol y llyfrgelloedd a'r adnoddau helaeth sydd wedi'u casglu yn y prifysgolion ac a gedwir o dan eu dibenion elusennol er budd y cyhoedd.

Yn ogystal, yn seiliedig ar wybodaeth a ryddhawyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Awst 2024, mae tuedd glir i lawr yn nifer y cofrestriadau gan fyfyrwyr â'u cartref yng Nghymru. Yn fwy pryderus fyth, yn ôl datganiad gan gorff cynrychioli prifysgolion, Cymru sydd â'r gyfran isaf o 18 oed sy'n gwneud cais i'r brifysgol yn y DU. Yn ystod y cyfnod ceisiadau traddodiadol, dim ond 32% o bobl ifanc 18 oed yng Nghymru a wnaeth gais i'r brifysgol eleni o gymharu â 33.2% yn flaenorol. Mae hyn yn arbennig o bryderus wrth ei gymharu â'r DU yn gyffredinol, lle mae'r ffigur yn sefyll ar 40.6%. Dylai dirywiad parhaus yn nifer y ceisiadau i'r brifysgol fod yn bryder mwyaf i bawb sy'n ymwneud ag addysg yng Nghymru, yn ogystal â'r ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus, hyfywedd yr economi ac i'r rhai ohonom sy'n cynrychioli'r cymunedau ffydd.

Tŷ Hastings House, Llys Fitzalan Court (gyferbyn â/opposite Tŷ Brunel House), Caerdydd/Cardiff CF24 0BL
cynan@cytun.cymru | www.cytun.co.uk
Mae Cytûn yn gwmni cofrestredig yng Nghymru a Lloegr | Rhif: 5853982 | Enw cofrestredig: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" | Mae Cytûn yn elusen gofrestredig | Rhif: 1117071
Cytûn is a registered company in England and Wales | Number: 5853982 | Registered name: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" | Cytûn is a registered charity | Number: 1117071

**Dr Cynan Llwyd**

**Swyddog Polisi / Ysgrifennydd Cyffredinol**

Mae'n amlwg bod cysylltiad rhwng cynaliadwyedd addysgu ac ymchwil mewn meysydd pwnc penodol a'r patrwm cyffredinol o ran recriwtio myfyrwyr ar lefel israddedig. Yn hyn o beth, hoffem ofyn i'r pwyllgor ystyried sut mae addysgu pynciau Dyniaethol, o dan y Maes Dysgu a Phrofiad a'r ddarpariaeth ôl-16, yn cyfrannu at hyfywedd rhaglenni o fewn darparwyr Addysg Uwch. I'r perwyl hwn, hoffem ofyn i'r pwyllgor sicrhau data, yn ansoddol ac yn feintiol, ar addysgu'r maes cwricwlaidd penodol hwn yng Nghymru.

Mae Cytûn yn cydnabod pwysigrwydd adolygiad ehangach o'r galw, y ddarpariaeth a'r dosbarthiad o bynciau mewn addysg uwch ledled Cymru, ac nad yw'r heriau sy'n wynebu'r sector yn unigryw i un maes y cwricwlwm. Fodd bynnag, hoffem gael sicrwydd gan sefydliadau a'r Gweinidog dros Addysg Bellach ac Uwch, drwy eich pwyllgor, bod yr heriau penodol sy'n wynebu'r dyniaethau yn cael eu deall yn eu cyd-destun a bod camau priodol yn cael eu cymryd gan y llywodraeth, y rheoleiddiwr addysg drydyddol yn ogystal â chan sefydliadau unigol.

Rydym yn gobeithio y gallwch gynnwys y cwestiynau hyn yn gyd-destun eich adolygiad, ac hoffem hefyd eich sicrhau ein bod yn parhau i ddangos diddordeb yn y polisi sy'n ymwneud ag addysg a phlant a phobl ifanc.

Yn gywir



Dr Cynan Llwyd
Ysgrifennydd Cyffredinol
Cytûn, Eglwysi Ynghyd yng Nghymru

Cc Clerk ac aelodau'r pwyllgor

Tŷ Hastings House, Llys Fitzalan Court (gyferbyn â/opposite Tŷ Brunel House), Caerdydd/Cardiff CF24 0BL
cynan@cytun.cymru | www.cytun.co.uk
Mae Cytûn yn gwmni cofrestredig yng Nghymru a Lloegr | Rhif: 5853982 | Enw cofrestredig: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" | Mae Cytûn yn elusen gofrestredig | Rhif: 1117071
Cytûn is a registered company in England and Wales | Number: 5853982 | Registered name: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" | Cytûn is a registered charity | Number: 1117071